# PECYN Dathlu DARLLEN

## CAM CYNNYDD 2 a 3

## RHWNG DAU GLAWR

Uned o weithgareddau trawsgwricwlaidd yn seiliedig ar thema dosbarth 'Rhwng Dau Glawr'
(i bara tua hanner tymor)



CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

1

Gweithgaredd

## Cyflwyniad 'Rhwng Dau Glawr'

- Rhannwch enw'r uned waith, 'Rhwng Dau Glawr', â'r dysgwyr. Gofynnwch iddynt drafod mewn parau/grwpiau bach pa syniadau sy'n dod i'w meddwl wrth ystyried y teitl. Pa drywyddau fyddai'n bosibl eu dilyn wrth weithio ar y thema? Gallai'r dysgwyr greu map meddwl o syniadau yn eu parau/grwpiau (e.e. ar bapur neu'n ddigidol, gan ddefnyddio rhaglen megis Jamboard).
- Yna, dywedwch wrth y dysgwyr eich bod am ganolbwyntio'n benodol ar y broses o greu llyfr ac mai diwedd y daith, neu binacl yr uned waith, fydd iddynt greu eu llyfrau eu hunain. Anogwch nhw i feddwl am syniadau a chwestiynau perthnasol i'r agwedd hon o'r thema a'u cofnodi eto ar ffurf map(iau) meddwl.

### Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau

- **Creu map meddwl o syniadau a thrywyddau posibl yn gysylltiedig â thema 'Rhwng Dau Glawr' – fel pâr, grŵp neu ddosbarth cyfan.**
- **Meddwl am syniadau a chwestiynau addas ynglŷn â'r broses o greu llyfr a'u cofnodi ar ffurf map(iau) meddwl.**


**Tasg ychwanegol** ★

Y dysgwyr i gynorthwyo gyda'r broses o gynllunio a chreu arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' yn y dosbarth. Gellir ychwanegu at yr arddangosfa yn barhaus wrth weithio ar y thema.




## Archwilio llyfrau

- Rhowch gyfle i'r dysgwyr archwilio'r gwahanol fathau o lyfrau plant neu lyfrau i bobl ifanc sydd i'w cael yng nghornel ddarllen y dosbarth/llyfrgell adnoddau'r ysgol, neu mewn llyfrgell gyhoeddus/siop lyfrau leol. Gallent gynnal arolwg syml a chadw cofnod o'r gwahanol genres o lyfrau sydd yno.
- Yn dilyn archwilio'r gwahanol genres o lyfrau, cynhaliwch drafodaeth ddosbarth am hoff fathau o lyfrau aelodau'r dosbarth. Pa fath o lyfrau ydych chi'n eu mwynhau a pham? Beth sy'n eich denu at lyfr yn y lle cyntaf? (Anogwch y defnydd o eirfa megis awdur, clawr, broliant, cynnwys, darluniau, adolygiad, argymhelliad, ac ati). Beth yw eich hoff lyfr chi? Beth sy'n arbennig amdano? Beth sy'n gwneud llyfr da yn eich barn chi?



- Gallai'r dysgwyr ddefnyddio siartiau Gwerthwyr Gorau/Ar y Brig Cyngor Llyfrau Cymru er mwyn ymchwilio i weld pa lyfrau i blant a phobl ifanc sydd wedi gwerthu orau yng Nghymru dros y misoedd diwethaf. Gallech lunio cwestiynau 'darllen a deall' iddynt eu hateb yn seiliedig ar y wybodaeth, er enghraifft. Gallent hefyd feddwl am gwestiynau addas am gynhyrchiant a gwerthiant llyfrau Cymraeg (e.e. faint o lyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru bob blwyddyn?) a cheisio dod o hyd i'r atebion.




- Trafod fel dosbarth: Pa fath o lyfrau ydych chi'n meddwl fyddech chi'n mwynhau eu creu a pham? Rhannwch y briff â'r dysgwyr – byddan nhw'n mynd ati i gynllunio, creu a gwerthu eu llyfrau eu hunain i ddarllenwyr yr un oed â nhw neu ddarllenwyr iau.

### Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau

- Y dysgwyr i gynnal archwiliad o'r gwahanol lyfrau sydd yng nghornel ddarllen/llyfrgell adnoddau'r ysgol, neu mewn llyfrgell neu siop lyfrau leol. Cofnodi, arddangos a dadansoddi eu canfyddiadau.
- Cynnal arolwg o hoff lyfrau'r dosbarth – gwaith casglu, cyflwyno a dadansoddi data.
- Gwaith mynegi barn (llafar a/neu ysgrifenedig). Pa fathau o lyfrau ydych chi'n eu mwynhau? Beth sy'n gwneud llyfr da? Beth yw eich hoff lyfr?

### Tasgau ychwanegol posibl (yn deillio o'r sesiwn/sesiynau)

- Tasg graddio diemwnt – 'Mae llyfr da yn ...' (gallech roi set o osodiadau parod i'r dysgwyr, neu gallent greu naw gosodiad eu hunain i'w graddio ar ffurf diagram diemwnt).
- Creu adolygiad o'u hoff lyfr Cymraeg (llafar neu ysgrifenedig).
- Ysgrifennu brawddeg, neu baragraff byr, i'w hychwanegu at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth: 'Fy hoff lyfr i yw ... oherwydd ...'
- Gwaith rhifedd yn seiliedig ar werthwyr gorau llyfrau Cymraeg i blant a phobl ifanc.



**Tasg ychwanegol ★**

Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.



## Swyddi yn y byd cyhoeddi

- Anogwch y dysgwyr i drafod mewn parau/grwpiau bach: Pa swyddi sy'n bwysig yn y broses, neu'r 'gadwyn', o greu, cynhyrchu a gwerthu llyfrau i blant a phobl ifanc? Wedi iddynt lunio eu rhestr o swyddi posibl, trafodwch syniadau pob pâr/grŵp cyn mynd ati i greu rhestr fel dosbarth cyfan. (Ceisiwch arwain y drafodaeth, os oes angen, at y swyddi hyn yn benodol: awdur, golygydd creadigol/golygydd cynnwys, darlunydd, dylunydd, golygydd copi, prawfddarllenydd, cyhoeddwr/argraffwyr, llyfrwerthwr, llyfrgellydd plant, gwaith yn adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen Cyngor Llyfrau Cymru.)
- Gan ddefnyddio clipiau fideo ar y ddolen hon fel sbardun, rhannwch y dysgwyr yn naw pâr neu grŵp. Rhowch glip fideo yr un i bob grŵp ganolbwyntio arno (e.e. awdur, dylunydd, llyfrwerthwr, ac ati) a gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r clip gan wneud nodiadau cryno am yr hyn maen nhw'n ei ddysgu am y swydd o dan sylw. Yna, gallech gynnal gweithgaredd carwsél, lle mae un aelod o bob pâr/grŵp yn symud at bâr/grŵp arall i rannu'r hyn maen nhw wedi ei ddysgu am eu swydd benodol nhw, hyd nes bod pawb wedi cyfnewid gwybodaeth â'i gilydd am bob swydd. (Os yw amser yn brin, gallai pob pâr/grŵp rannu a chymharu gwybodaeth fel dosbarth cyfan.) Gallech wylio pob clip fideo fel dosbarth cyfan wedyn, er mwyn i bawb gael y cyfle i ennyn yr un dealltwriaeth o bob swydd.
- Trafod fel dosbarth: Pa un o'r swyddi hyn sy'n apelio fwyaf atoch chi a pham? Beth am gynnal arolwg byr i weld pa un o'r swyddi yn y 'gadwyn' o greu a chyhoeddi llyfrau plant a phobl ifanc fyddai'n apelio fwyaf at aelodau'r dosbarth?
- Opsiwn amgen i'r uchod fyddai gwahodd ambell aelod o'r 'gadwyn' swyddi llyfrau plant a phobl ifanc i'r ysgol i siarad â'r dysgwyr yn uniongyrchol. Cofiwch am dudalen Adnabod Awduron Cyngor Llyfrau Cymru os hoffech chi wahodd awdur neu ddarlunydd i'r ysgol i sôn am eu gwaith, ac am fap siopau llyfrau Cymraeg annibynnol y Cyngor Llyfrau. Tybed a oes gwasg argraffu yn eich ardal leol ac os oes, a fyddai modd i chi wahodd un o'u gweithwyr sy'n ymwneud â'r broses o gyhoeddi llyfrau plant a phobl ifanc i'r ysgol? Neu a oes aelod o gymuned yr ysgol yn gweithio ym maes creu a chyhoeddi llyfrau plant (e.e. rhiant/gwarcheidwad neu lywodraethwr)? Os ydych yn gwahodd unigolyn/unigolion i'r ysgol, anogwch y dysgwyr i feddwl am gwestiynau addas ymlaen llaw i'w gofyn am eu gwaith.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Gwylio clip fideo fesul pâr/grŵp bach a gwneud nodiadau i grynhoi'r cynnwys, cyn rhannu'r wybodaeth ag aelod o grŵp arall.**
- **Trafod a mynegi barn –pa swydd/swyddi sy'n apelio atynt a pham.**

**Tasgau ychwanegol posibl (yn deillio o'r sesiwn/sesiynau)**

- **Meddwl am gwestiynau addas i'w gofyn i unigolion sy'n gweithio ym maes llyfrau plant a phobl ifanc.**
- **Gwaith trin data – pa swyddi ym maes llyfrau plant a phobl ifanc sy'n apelio fwyaf at aelodau'r dosbarth?**

**Tasg ychwanegol ★**

Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.



Gweithgaredd 4+5



## Sut i greu a gwerthu llyfrau

- Yn dilyn gwaith y sesiwn ddiwethaf, gallai'r dysgwyr weithio'n unigol neu mewn parau i lunio un neu fwy o'r canlynol, yn seiliedig ar un o swyddi'r 'gadwyn' llyfrau plant a phobl ifanc:
    - Hysbyseb swydd
    - Manyleb person
    - Llythyr cais neu CV dychmygol
- Gallent hefyd chwarae rôl sefyllfa cyfweliad, lle mae 'ymgeisydd' yn esbonio pa rinweddau addas sydd ganddo/ganddi ar gyfer un o'r swyddi.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Creu hysbyseb swydd, manyleb person, llythyr cais neu CV dychmygol.**

**Tasgau ychwanegol posibl (yn deillio o'r sesiwn/sesiynau)**

- **Chwarae rôl cyfweliad am swydd.**

## Cynhyrchu llyfrau

- Atgoffwch y dysgwyr o'r briff a rannwyd ar ddechrau'r uned o waith – byddan nhw'n mynd ati i greu, cynhyrchu a gwerthu eu llyfrau eu hunain.
- Trafod fel dosbarth: pa fath o lyfrau fyddai'n addas iddynt eu creu? Pwy fydd y gynulleidfa darged? Dewch i benderfyniad fel dosbarth ynglŷn â'r math o lyfrau y bydd y dysgwyr yn mynd ati i'w creu. Un o'r opsiynau hawsaf fyddai creu llyfrau stori a llun neu nofelau byrion gweddol syml i ddarllenwyr yr un oed â nhw neu iau, ond byddai llyfrau comig, nofelau graffig neu lyfrau ffeithiol gweddol syml hefyd yn opsiynau da.
- Ewch ati i greu map meddwl neu dasgfa o syniadau'r dosbarth. Yna, trafodwch beth fydd angen ei ystyried wrth fynd ati i gynllunio a chreu eu llyfrau, e.e. llyfrau ffuglen – thema, teitl, cymeriadau, plot a datblygiad y stori, geirfa addas, darluniau, diwyg a dyluniad, sut i argraffu a'r gost, sut i farchnata'r llyfrau gorffenedig, i bwy y gallech eu gwerthu, ac ati. (Gallech addasu rhywfaint ar y broses gynllunio a chreu os yw'r dysgwyr yn awyddus i greu llyfrau ffeithiol, e.e. ar thema amgylcheddol neu'r ardal leol, chwaraeon, gwyddoniaeth, ac ati.)

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Gwaith trafod a dod i gasgliad ynglŷn â'r math o lyfrau y byddant yn eu creu.**
- **Map meddwl/tasgfa o syniadau'r dosbarth am agweddau sydd ynghlwm â'r broses o greu a gwerthu eu llyfrau.**

**Tasg ychwanegol ★**

Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.

6

Gweithgaredd

## Enghreifftiau o lyfrau

- Rhowch enghreifftiau o'r mathau penodol o lyfrau mae'r dosbarth am fynd ati i'w creu i'r dysgwyr mewn grwpiau bach, e.e. llyfr llun a stori, nofel graffig neu lyfr ffeithiol syml. Anogwch nhw i ystyried yn ofalus beth yw nodweddion y math o lyfr dan sylw (cynnwys, arddull, ieithwedd, diwyg, ac ati), cyn casglu syniadau pob grŵp a chreu rhestr o feini prawf llwyddiant y gwahanol fathau o lyfrau fel dosbarth.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Edrych ar enghreifftiau o fathau penodol o lyfrau, e.e. llyfr llun a stori, nofel graffig neu lyfr ffeithiol syml. Pennu meini prawf llwyddiant y gwahanol fathau o lyfrau fel grŵp, ac yna fel dosbarth cyfan.**
- **Map meddwl/tasgfa o syniadau'r dosbarth am agweddau sydd ynghlwm â'r broses o greu a gwerthu eu llyfrau.**



**Tasg ychwanegol** ★
Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.

## Cynllunio'r llyfr

Y dysgwyr i fynd ati i gynllunio a mapio'u llyfrau yn fras (yn unigol neu mewn parau):

### Llyfrau stori/ffuglen

Dechrau trwy benderfynu ar gymeriadau i'r stori – sawl cymeriad fydd (gan gofio nad oes angen gormod, yn enwedig mewn llyfr stori gweddol syml/byr), enwau, edrychiad, nodweddion/rhinweddau. Gallai'r dysgwyr greu ffeil ffeithiau byr am gymeriadau'r stori gan nodi ffeithiau pwysig amdanynt. Yna, gallent ddechrau eu braslunio, â llaw yn gyntaf, ac efallai wedyn gyda rhaglen ddigidol megis *Sketchbook*.

Pan fydd y dysgwyr yn hapus â'u cymeriadau, bydd angen iddynt fapio cynnwys eu stori yn fras. Beth yw'r plot? Beth sy'n digwydd i'r cymeriadau? A oes uchafbwynt i'r stori? Beth sy'n digwydd ar ddechrau, canol a diwedd y stori? Gallent greu bwrdd stori neu fap stori syml er mwyn mapio'u stori yn fras.

### Llyfrau ffeithiol

Dechrau trwy benderfynu beth fydd pwnc y llyfr. Pa themâu neu wybodaeth fydd yn cael eu cyflwyno a'u trafod? Pa ffynonellau fyddan nhw'n eu defnyddio er mwyn cywain gwybodaeth? A fydd angen rhannu'r llyfr yn benodau, neu rannu'r wybodaeth o dan benawdau ac is-benawdau? Pa ddarluniau fydd eu hangen i gyd-fynd â pha ddarnau o wybodaeth? Pa mor syml (a/neu dechnegol) fydd angen i iaith a chynnwys y llyfr fod?

Pan fydd y dysgwyr yn hapus â'r uchod, gallant fynd ati i ymchwilio a chywain gwybodaeth am y pwnc dan sylw (o ffynonellau print a digidol, gan drawsieithu os oes angen), a chofnodi ffeithiau allweddol i'w cyflwyno yn eu llyfr ar fap cynllunio.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

**Ffuglen:**

- **Creu ffeil ffeithiau byr am bob un o gymeriadau eu stori.**
- **Braslunio'r cymeriadau.**
- **Mapio cynnwys eu stori.**

**Ffeithiol:**

- **Mapio'u llyfr, o ran thema, cynnwys, ffynonellau gwybodaeth, diwyg, mathau o ddarluniau, ieithwedd, ac ati.**

**Tasg ychwanegol ★**

**Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.**



## Awduro

- Y dysgwyr i fynd ati i ysgrifennu drafft cyntaf testun eu llyfrau, boed rheini'n lyfrau ffuglen neu ffeithiol.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Ysgrifennu drafft cyntaf testun eu llyfrau.**

## Darlunio

- Y dysgwyr i greu darluniau (â llaw a/neu'n ddigidol) i gyd-fynd â thestun eu llyfrau.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Creu darluniau i gyd-fynd â thestun eu llyfrau.**

## Golygu testun

- Rhowch gyfle i'r dysgwyr weithio mewn parau er mwyn darllen (a golygu) testunau ysgrifenedig ei gilydd. Cyfeiriwch nhw yn ôl at y meini prawf llwyddiant a bennwyd gan y dosbarth yng ngweithgaredd 6. Pa awgrymiadau fydden nhw'n eu rhoi ar gyfer ailddrafftio'r gwaith? Gallent wneud yr un fath gyda'r darluniau hefyd.
- Yna, y dysgwyr i fynd ati i ailddrafftio'r testun ysgrifenedig a'r darluniau, os oes angen (wedi i oedolyn olygu'r gwaith hefyd).

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Golygu gwaith ei gilydd, yn unol â meini prawf llwyddiant y dosbarth.**

**Tasg ychwanegol ★**

Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.



## Creu

- Y dysgwyr i fynd ati i greu eu llyfrau terfynol (yn ddigidol, yn ddelfrydol, gan ddefnyddio rhaglen megis *Book Creator*). Mewnosod eu testun a'u darluniau a dylunio'u llyfrau yn briodol, gan gadw'r meini prawf llwyddiant mewn cof.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- Creu eu llyfrau terfynol.

## Prawfddarllen (bron iawn yno ...)

- Rhowch gyfle i'r dysgwyr olygu a phrawfddarllen eu llyfrau digidol, yn unol â'r meini prawf llwyddiant. Eto, gallent weithio mewn parau i ddarllen gwaith ei gilydd yn ogystal â darllen eu gwaith eu hunain, cyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol a gweithio ar y drafft terfynol.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- Golygu a phrawfddarllen eu llyfrau cyn creu drafft terfynol.

## Cyhoeddi

- Pan fydd fersiynau gorffenedig y llyfrau yn barod, trafodwch fel dosbarth beth fyddai'r opsiynau gorau o ran eu hargraffu. Gallech ymchwilio i'r posibiliadau o ran argraffu'n fewnol yn yr ysgol neu ddefnyddio cwmni neu wasg argraffu leol. Beth fyddai cost pob opsiwn? Faint o lyfrau fyddai angen eu hargraffu, a pha opsiwn fyddai'n cynnig y gwerth gorau am arian a'r cyfle i wneud y mwyaf o elw? Faint fyddai'n addas i'w godi am bob llyfr wrth eu gwerthu?
- Gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i brisio pob opsiwn, cyn rhannu eu canfyddiadau a dod i benderfyniad ar yr opsiwn argraffu fel dosbarth.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- Ymchwilio a phenderfynu ar yr opsiwn gorau o ran argraffu'r llyfrau.
- Gwaith rhifedd yn seiliedig ar wahanol brisiau argraffu.

**Tasg ychwanegol ★**

Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.



## Marchnata

- Pan fydd y broses argraffu wedi'i chwblhau, anogwch y dysgwyr i feddwl am ymgyrch farchnata addas ar gyfer y llyfrau. Gallent fynd ati i greu hysbyseb llafar a/neu boster i'w rhannu ar gyfryngau cymdeithasol yr ysgol i hysbysebu'r llyfrau.
- Ewch ati fel dosbarth i drafod syniadau a threfnu digwyddiad mawreddog er mwyn lansio a gwerthu llyfrau'r dosbarth i gymuned yr ysgol ac aelodau o'r gymuned ehangach. Beth am i'r dysgwyr fod yn gyfrifol am wahodd aelodau o'r cyfryngau lleol (e.e. papur newydd lleol/gorsaf radio leol) i fod yn bresennol yn y digwyddiad, er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd i'r fenter?

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Creu hysbyseb llafar/poster, ac ati, er mwyn hysbysebu eu llyfrau.**
- **Trafod syniadau ar gyfer digwyddiad mawreddog i lansio a gwerthu llyfrau'r dosbarth.**
- **Trefnu'r digwyddiad mawreddog fel dosbarth.**

**Tasgau ychwanegol posibl (yn deillio o'r sesiwn/sesiynau)**

- **Cysylltu â'r cyfryngau lleol er mwyn hysbysebu'r digwyddiad mawreddog a rhoi gwybod am y fenter.**

## Lansiad swyddogol

- Cynnal digwyddiad mawreddog i lansio a gwerthu llyfrau'r dysgwyr i weddill cymuned yr ysgol/y gymuned ehangach. Beth am gynnwys sesiwn yn y lansiad, neu sesiwn ar wahân, er mwyn iddynt ddarllen pytiau o'u llyfrau i ddysgwyr iau/y gynulleidfa darged?

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Cynnal digwyddiad mawreddog er mwyn lansio a gwerthu'r llyfrau i weddill cymuned yr ysgol/y gymuned ehangach.**



Tasg ychwanegol ★
Ychwanegu'n barhaus at arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.

## Gwerthuso

- Gallai'r dysgwyr wneud tasgau rhifedd pellach yn seiliedig ar werthiant eu llyfrau. Faint o elw gafodd ei wneud o'r gwerthiant, ar ôl talu am y costau argraffu ac unrhyw gostau eraill oedd ynghlwm â'r lansiad neu arwerthiant? Beth ddylid ei wneud â'r elw? (Byddai'n syniad annog y dysgwyr i ystyried gwario'r arian ar gyfoethogi ardaloedd darllen y dosbarth/yr ysgol – e.e. prynu llyfrau neu ddodrefn newydd i'r gornel ddarllen neu'r llyfrgell adnoddau.) Gallai'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i greu 'rhestr siopa' addas o'r hyn y gallent ei wneud â'r elw, gan brisio'n ofalus ac ystyried y gwerth gorau am arian.
- Gallech greu mat mathemateg o gwestiynau rhifedd yn seiliedig ar waith yr uned, neu gallai'r dysgwyr eu hunain lunio mat mathemateg o gwestiynau yn seiliedig ar y gwaith.
- Gallent hefyd wneud tasgau llafar ac ysgrifenedig yn seiliedig ar waith y prosiect, e.e. ysgrifennu adroddiad am y broses o greu eu llyfrau eu hunain i gylchgrawn yr ysgol, i bapur bro neu bapur newydd lleol; creu eitem newyddion ddigidol neu raglen ddogfen fer am y broses o greu'r llyfrau; creu rhestr o gynghorion neu *top tips* am y broses o greu llyfr; creu eu huned o waith 'darllen a deall' eu hunain yn seiliedig ar gynnwys eu llyfrau, ac ati.

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Tasgau rhifedd yn seiliedig ar werthiant llyfrau'r dosbarth.**
- **Trafod a phenderfynu ar yr hyn ddylid ei wneud â'r elw o werthiant y llyfrau, e.e. creu 'rhestr siopa' fel grŵp.**

**Tasgau i'w cyflawni yn ystod y sesiwn/sesiynau**

- **Tasgau llafar ac ysgrifenedig yn seiliedig ar waith y prosiect, e.e. adroddiad i gylchgrawn yr ysgol/papur bro/papur newydd lleol; eitem newyddion ddigidol/rhaglen ddogfen fer; rhestr *top tips* creu llyfr i blant a  phobl ifanc.**

**Tasg ychwanegol ★**

**Cwblhau arddangosfa 'Rhwng Dau Glawr' y dosbarth.**

